Duw y Diffeithwch

Adnodau agoriadol:
"Cofiwch yr holl ffordd yr arweiniodd yr Arglwydd eich Duw chwi yn ystod y deugain mlynedd hyn yn yr anialwch....."

Deuteronomium 8: 12

"Llais un yn galw, Paratowch yn yr anialwch ffordd yr Arglwydd, unionwch yn y diffethwch briffordd i'n Duw ni." *Eseia 40: 3*

Geiriau agoriadol:
I bobl y Beibl yr oedd y diffeithwch, er gwaethaf ei lymder a'i galedi, yn gysylltiedig â'r profiadau dyfnaf o bresenoldeb Duw a'i ymwneud â'i bobl. Trwy'r anialwch yr arweiniwyd hwy o gaethiwed ac yn unigedd a moelni'r anialwch y meithriniwyd eich ffydd a'ch bywyd ysbrydol.

Meddyliwch pa rai o'ch profiadau chi sy'n brofiadau o'r diffeithwch? Gofynnwch i Dduw eich helpu i fynd trwy eu poen a'u llymder ac i'w ganfod ef ynddynt.....

Gweddi:

Arwain ein meddyliau yn yr addoliad hwn;
i feddwl am brofiadau'r diffeithwch,
am eu heffaith arnom,
a gofynnwn i Dduw
ein helpu a'i ganfod Ef
yng nghanol drysni'r diffeithwch.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Emyn: 702 Caneuon Ffydd.
" 'Gweddi am Nerth i fyned trwy Anialwch y Byd' oedd y teitl a roddwyd ar yr emyn hwn pan gyhoeddwyd ef am y tro cyntaf yng nghyfrol Williams Pantycelyn, 'Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr' (1762).....Y mae delwedd y pererin – hoff ddelwedd Pantycelyn – yn

hollbresennol yn yr emyn. Ceir yma hefyd gyfeiriadau at ddigwyddiadau ar daith yr Israeliaid drwy'r anialwch o gaethiwed yr Aifft i Wlad yr Addewid." *Delyth G. Morgans, 'Cydymaith Caneuon Ffydd,'*

Cefndir:

Mae'r adnod agoriadol gyntaf yn dod o lyfr Deuteronomium sy'n perthyn i'r Pumllyfr cyntaf yn y Beibl, sef Genesis, Exodus, Lefiticus, Numeri a Deuteronomium. Dyma'r adran o'r Beibl Hebraeg sy'n cael ei alw "Y Gyfraith" neu'r 'Torah' ond mae llyfr Deuteronomium yn wahanol i'r pedair cyfrol arall. Mae hwn yn sefyll ar ei ben ei hun. Nid yn unig, y mae'n wahanol o ran iaith ac arddull, ond hefyd mae nod a delfryd y llyfr yn wahanol. Neges y llyfr hwn yn syml yw fod Duw yn caru'r genedl ac mae'n gofyn am ymateb tebyg ganddi hithau. Rhoddir lle amlwg yn y penodau cyntaf ar arolwg hanesyddol o daith yr anialwch sy'n arwain i gopa mynydd Sinai. Yn y penodau hyn mae'r ymadroddion "cadwch hwy er mwyn i chwi gael byw a mynd i feddiannu'r wlad y mae Arglwydd, Duw eich hynafiaid, yn ei rhoi ichwi" (Deut 4: 1) neu "er mwyn ichwi fyw a chynyddu a mynd i feddiannu'r wlad y tyngodd yr Arglwydd y byddai'n ei rhoi i'ch hynafiaid" (Deut 8; 1), yn ymddangos yn aml. Dengys hyn fod Duw gyda'i bobl, yn eu harwain a'u tywys i feddiannu gwlad well. Cyflwr dros dro yr anialwch yn hanes ei bobl, ond cyflwr real ac anodd serch hynny. Neges Deuteronomium yw fod Duw gyda'i bobl ymhob 'argyfwng, siom a loes.' Ymha argyfwng bynnag y canfu unigolyn ei hun ynddo, neges y Beibl yw nad yw'n amddifad ac yn unig. Mae Duw gyda ni ym mhrofiadau mwyaf anodd ac astrus bywyd, y gamp ydi darganfod Duw yn y profiadau hynny. Meddai'r Salmydd, "Os dringaf i'r nefoedd, yr wyt yno; os cyweiriaf wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd" (Salm 139: 8). Darganfod Duw yn "anawsterau'r daith" ydi'r nod.

Darllen: Salm 139

Cefndir:

Darganfyddiad sydd yn y salm hon – y darganfyddiad fod Duw yn adnabod y dyn hwn drwyddo draw. Nid yn unig mae'r Salmydd yn credu fod Duw yn gwybod y cwbl amdano ond hefyd fod Duw yn gofalu

amdano a hefyd yn gwybod y manylion lleiaf amdano. Mae gwrthrych y Salm hon wedi'i feddiannu gymaint gan ddiddordeb personol Duw ynddo, fel ei fod mwyach, yn credu mai dim ond dau sydd yn y bydysawd cyfan – sef ef ei hun a Duw. O galon lawn mae'n gweddïo: "Yr wyt wedi cau amdanaf yn ôl ac ymlaen ac wedi gosod dy law drosof" adn 5. Ni all y Salmydd amgyffred sut y gall Duw, sy'n Dduw yr holl fydysawd, ddiddori mewn un bod dynol ond mae ganddo ddigon o wyleidd-dra i ddeall beth yw bod yn ddyn a beth yw bod yn Dduw. Ni all y meddwl dynol amgyffred y meddwl dwyfol, "Y mae'r wybodaeth hon yn rhy ryfedd i mi; y mae'n rhy uchel i mi ei chyrraedd" adn 6. Penllanw profiadau'r Salmydd yw darganfod y Duw sy'n ymchwilio ac yn ceisio – y Duw sy'n chwilio amdanom. Hwn yw'r Duw sy'n ein caru gymaint fel ei fod yn gwrthod gadael i ni fynd o'i ŵydd. Efallai ein bod ni'n cefnu arno ef, ond nid yw ef yn mynd i ffwrdd. Efallai ein bod yn cuddio rhagddo ond mae ef yn chwilio amdanom hyd yn oed "os cyweiriaf wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd." Does yna ddim dianc o afael y Duw hwn sy'n chwilio amdanom.

Mae hon yn wybodaeth gwerth ei chael, yn enwedig pan fyddwn ni yn yr anialwch, heb neb na dim i droi ato, gan feddwl hyd yn oed fod Duw ei hun wedi cefnu a'n gadael yn amddifad. Yng nghanol profiadau'r anialwch, pa mor chwerw bynnag fo'r rheiny, neges y Beibl drwyddo draw yw nad yw Duw yn ein gadael. Ni yn aml sy'n pellhau oddi wrtho Ef. Darganfod y Duw ymchwilgar, y Duw sy'n ceisio yw'r nod. Hwn ydi'r Duw sy'n ein cymell i godi ar ein traed a gadael yr anialwch am byth.

Gweddi:

Arglwydd,
cyfnod anodd ydi cyfnod yr anialwch,
cyfnod o straen,
cyfnod o ddigalondid,
cyfnod o droi yn ein hunfan
a methu gweld yn glir.
Cyfnod o boen ac artaith,
cyfnod undonog.
Cyfnod anodd.

Arglwydd,
mae profiad yr anialwch
wedi bod yn brofiad byw
i bob un ohonon ni,
ryw dro.
Weithiau, mae'n dod mor sydyn,
mor ddirybudd,
dro arall, mae'n dod yn raddol
ond yn bendant
a ninnau'n mynd yn is ac yn is
i'r gwaelodion.
Mor anodd ydi dod oddi yno.
Mae'n gafael mor dynn ynom,
ac mor anodd ydi gweld yn glir.
Gweld dim ond anobaith
a thywyllwch o'n cwmpas.
A'r pryd hwnnw, mor hawdd ydi anobeithio.
Anobeithio yn yr hunan.
Anobeithio yn dy rym a dy allu di.
Methu dy weld yn unman.
Ar ein gliniau gofynnwn heddiw.
Sut mae dy weld di
pan fyddwn ni yn y diffeithwch?
Arwain ni, O Dduw, i geisio
dod i'r afael â'r cwestiwn dyrys hwn
trwy gyfrwng yr oedfa hon. Amen.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Emyn: 682. Caneuon Ffydd.
Dyma un o emynau enwocaf William Williams, Pantycelyn. Gofyn am arweiniad mae'r emynydd, 'Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, Iedia'r ffordd' a dyma gri'r Cristion ym mhob oes.

Darllen: Deuteronomium 8: 1 – 10.

Neges y darlleniad, yn syml, yw bod Duw yn Dduw i'r bobl yn ystod cyfnod anodd yr anialwch. "Cofiwch yr holl ffordd yr arweiniodd yr Arglwydd eich Duw chwi yn ystod y deugain mlynedd hyn yn yr anialwch" adn 2, a'r penllanw yw fod "yr Arglwydd eich Duw yn dod â chwi i wlad dda...." adn 7. Yn y wlad, mae'r holl anghenion yno ar eu cyfer, dŵr ac amrywiaeth o fwydydd ynghyd â cherrig, haearn a chopr. Yn y wlad newydd bydd cynhaliaeth ddihysbydd; mae arweiniad Duw yn bendant, cadarn a phellgyrhaeddol.

Cwestiynau i'w hystyried:
I'r rhai sydd wedi profi, neu'n gwybod am rywun sydd wedi bod trwy gyfnod anodd, pa mor ymwybodol oeddech chi o bresenoldeb Duw? Neu, tybed oedd y profiad mor ddirdynnol fel na allech deimlo'i bresenoldeb?

Pa mor bwysig ydi cymorth a chyngor mewn cyfnod anodd? At bwy fuasech chi'n troi mewn cyfnod felly? Teulu, ffrindiau, gweinidog/ offeiriad, gweithiwr cymdeithasol, cyfreithiwr, meddyg neu rywun cwbl ddieithr?

Darllen: Eseia 40: 1 – 8.

Cefndir:
Cefndir o gysur a gobaith yw penodau 40 – 55 o lyfr y Proffwyd Eseia. Priodolir y penodau hyn, yn ôl athrawon Beiblaidd, i'r Ail Eseia. Ni wyddom nemor ddim am y proffwyd hwn ond gwyddom mai proffwyd yw, sy'n edrych yn ôl at y Gaethglud, sef y cyfnod pan alltudiwyd y genedl o'u gwlad ar ôl brwydr fawr brenin Babilon pan ddymchwelwyd Jerwsalem yn garnedd yn y flwyddyn 586cc.

Treuliodd yr Israeliaid gyfnod helaeth allan o'u gwlad, mewn gwlad ddieithr, ond neges y proffwyd hwn yw bod eu hamser "yn y wlad bell" ar ben. Cânt ddychwelyd i'w gwlad eu hunain. Sonnir am ddymchwel Babilon, penodau 45: 1 – 5 a 48: 14, ac mae'r gwaredydd eisoes ar

lwyfan hanes ac fe'i henwir, 'Cyrus, brenin Persia', Eseia 44: 28 a 45: 1. Mae cyfnod "anialwch Babilon" ar fin dod i ben yn eu hanes.

Gwyddai'r Iddew yn dda, o hanes ei genedl, nad oedd man na math o amgylchiadau a allai ei lochesu rhag y gorthrymderau a gwyddai fod gweledigaeth a grym a'i galluoga i dderbyn nerth a goruchafiaeth ar yr amgylchiadau hynny. Sonia'r Ail Eseia am, 'ffordd yr Arglwydd, unionwch yn y diffeithwch briffordd i'n Duw ni" adn 3.

Ers talwm, pan oeddwn yn blentyn, soniai pobl f'ardal i am lôn bost. Doedd gen i ddim syniad bryd hynny beth oedd y fath lôn. Y lôn bost oedd yr A5 oedd yn nadreddu ei ffordd o Gaergybi i Lundain ac ar hon y deuai'r post brenhinol. Y lôn hon oedd y cyswllt rhwng Llundain, y brif ddinas a mannau eraill o'r wlad gan gynnwys Cymru a thu hwnt, trwy Gaergybi i'r Iwerddon. Llundain bryd hynny, oedd y canolbwynt, yno roedd y Llywodraeth yn cyfarfod, yno roedd cartref deddfwriaeth y wlad ac yno roedd bywyd ar ei gyflawnaf. Erbyn heddiw, rhoddir yr un statws i Gaerdydd, canolbwynt y Cynulliad, cartref rhai deddfau ar hyn o bryd ac yno bydd llawer o ieuenctid ein gwlad yn tyrru ac yn gwagio ein cefn gwlad, oherwydd yno, medda nhw, mae bywyd 'ar ei orau." Mae'n werth ystyried y darlun hwn o'r brifddinas – dyma'r canolbwynt, dyma Gysegr Preswylfeydd y Goruchaf. Yn y brifddinas hon mae'r orsedd dragwyddol. Neges y Beibl yn syml yw, wrth i ni gerdded ar hyd y briffordd hon ac anelu at y brifddinas, bryd hynny daw holl bwerau'r Greadigaeth at ein gwasanaeth.

Mae'n werth troi am funud at Eseia arall, yr Eseia Cyntaf, awdur penodau 1 – 39. Ym mhennod 6, cawn olygfa o'r proffwyd hwn, yn y flwyddyn y bu farw'r Brenin Usseia, yn cael gweledigaeth o Dduw yn y deml, ".....gwelais yr Arglwydd. Yr oedd yn eistedd ar orsedd uchel, ddyrchafedig a godre'i wisg yn llenwi'r deml" Eseia 6: 1. Pwy yw hwn? Yn ôl y Seraffiaid oedd yn 'datgan y naill wrth y llall,' "Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd y Lluoedd; y mae'r holl ddaear yn llawn o'i ogoniant" Eseia 6: 3. Dyma'r grym, sef sancteiddrwydd sy'n dal y greadigaeth wrth ei gilydd. Y sancteiddrwydd hwn sy'n cynnal rhythm y Greadigaeth. Wrth i ni diwnio i'w symudiadau Ef bydd cynghanedd yn y greadigaeth a gallwn sylweddoli posibiliadau aruchelaf bywyd yn ei amrywiaeth. Bywyd yn ei gyflawnder oedd rhodd Iesu yn y Testament Newydd.

Cyfnod i fyfyrio:

Cwestiynau i'w trafod:

Tybed ydi "cyfnod yr anialwch" yn rhan o gynllun a phwrpas Duw ar gyfer ei bobl? Ynteu cyfnod o wrthgilio a phellhau oddi wrth Dduw sy'n codi'n naturiol pan fo dyn yn gwrthryfela?

Beth yw bendithion cyfnod yr anialwch? Ydi amheuon yn rhan o dyfiant Cristnogol?

Emyn: 697 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Weithiau, Arglwydd,
mae'n anodd deall y drefn,
anodd dygymod â'r drefn,
neu felly rydyn ni'n ei gweld hi.
Petai ni ddim ond yn edrych ar y gymdeithas
y drygau a'r drygioni,
y trywanu a'r saethu,
y treisio a'r lladd.
Mae'r cyfan yn ein gwneud ni'n ddigalon
a diffrwt.
Rydym yn cael ein sigo,
ac mae'r awydd i geisio helpu a chynghori
wedi mynd,
a'n gadael yn llethol,
yn fethiant llwyr.

Mae hi'n anialwch o'n cwmpas ymhob man.
Cyfnod anodd.
A'r hyn sy'n ein blino
yw na fedrwn dy weld di.
Mae bwriadau ac amcanion gorau
dy bobl yn troi'n ddim.

Ac rydyn ninnau'n gorfod gofyn,
pam mae'r drygionus yn llwyddo?

Tybed, Arglwydd, ydi'r ateb yn syml?
Ai ceisio'r atebion arwynebol,
dros dro ydyn ni?
Sylfaen y greadigaeth
ydi dy sancteiddrwydd di.
Y sancteiddrwydd welson ni yn dy Fab, Iesu.
Math newydd o fywyd,
bywyd pur,
bywyd gwylaidd,
bywyd difalais,
bywyd o dangnefedd,
bywyd aberthol,
bywyd er mwyn eraill.
Yn Iesu gwelsom egin bywyd newydd,
dynoliaeth newydd,
dynoliaeth ysbrydol,
wahanol,
sanctaidd.

Mae Iesu, trwy fywyd a'i farwolaeth
wedi dangos a phrofi sancteiddrwydd
Duw.
Anelwn at hyn.
Dyma sy'n mynd i wneud y gwahaniaeth.
Cerddwn ei ffordd ef
a phryd hynny
gallwn droi'r byd wyneb i waered. Amen.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd.

Munud i feddwl:

Beth yw sancteiddrwydd? Yn sicr nid ufuddhau i reolau caeth a diystyr ac nid ceisio ymgyrraedd at ofynion deddfau moesol, ond yn hytrach,

ceisio deall ac adnabod ffordd a gweithgaredd Duw yn y byd a rhannu yn y gwaith hwnnw. Wrth dyfu yn y sancteiddrwydd hwn mae'r unigolyn yn amlygu cymeriad a natur Duw yn ei fywyd ei hun. Fel mae'r lleuad yn adlewyrchu golau'r haul ar noson dywyll, felly mae'r Cristion yn adlewyrchu golau Duw yn ei fywyd ei hun ac yn treiddio i fywydau eraill. Ac mae'r sancteiddrwydd hwn yn adlewyrchu i holl agweddau bywyd. Adlewyrchu goleuni arall mae'r sant ac er bod y goleuni hwn yn goleuo bywyd y sant ei hun, nid dyna'r nod. Dangos mae'r sant sut un yw Duw. Duw sy'n cael ei ddyrchafu.

Emyn: 174 Caneuon Ffydd.

Litani:

Pan fyddwn yn niffeithwch ein hamheuon
ac yn baglu yn ein hofnau a'n hansicrwydd:
Arglwydd, tyrd i'n hargyhoeddi.

Pan fyddwn yn niffeithwch ein hunigrwydd,
heb neb yn gwmni i ni a neb i rannu'n gofidiau â hwy:
Arglwydd, tyrd i'n cysuro.

Pan fyddwn yn niffeithwch ein hanobaith,
ein methiant yn ein llethu a'r dyfodol yn dywyll:
Arglwydd, tyrd i'n harwain.

Pan fyddwn yn niffeithwch ein tlodi ysbrydol,
wedi colli gafael arnat ac yn methu â gweddïo:
Arglwydd, tyrd i'n bendithio. Amen.

Y Fendith:

Crist bydd gyda mi, Crist o'm mewn,
Crist y tu cefn i mi, Crist y tu blaen i mi,
Crist yn fy ymyl i, Crist i'm hennill i,
Crist i'm cysuro a'm hadfywio,
Crist o danaf, Crist uwch fy mhen,
Crist mewn distawrwydd, Crist mewn perygl,
Crist yng ngenau ffrind neu ddieithryn. Amen.

Padrig o'r Iwerddon.